OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2799

# Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Cynllun hwn—

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am grant o dan y Cynllun hwn ac mae "ceisydd" ("*applicant*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "cymeradwyaeth" ("*approval*") yw cymeradwyaeth i gais;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" yn adran 155(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "cwch pysgota Cymreig" ("*Welsh fishing boat*") yw cwch pysgota—

(a) sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(**2**),

(b) neu—

(i) sydd o dan berchenogaeth lwyr neu rannol personau sy'n gymwys i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno, ond

(ii) nad yw'n gwch sydd, yn unig o ganlyniad i gymhwyso iddo adran 1(1)(c) o'r Ddeddf honno yn rhinwedd ei gofrestru o dan ddeddf unrhyw un o Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, yn cyfrif fel llong Brydeinig at ddibenion y Ddeddf honno;

ac y mae ei borthladd gweinyddu yng Nghymru ar y dyddiad cymhwyso;

ystyr "darparwr y Cynulliad" ("*the Assembly provider*") yw darparwr a gosodwr dyfeisiau olrhain drwy loeren a ddewisir gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliad;

mae i "dyfais olrhain drwy loeren" yr ystyr sydd i "*satellite-tracking device*" yn y Rheoliad;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") mewn perthynas â chwch pysgota, yw ei berchennog, ei siartrwr (os oes un), neu ei feistr neu gynrychiolydd unrhyw un ohonynt;

ystyr "porthladd gweinyddu" ("*port of administration*") yw'r porthladd y dyroddir ohono'r drwydded a roddir o ran cwch pysgota o dan adran 4 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**3**);

ystyr "y Rheoliad"("*the Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2244/2003 sy'n gosod darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail lloeren(**4**); ac

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw swyddog a awdurdodir yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Cynllun hwn.

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) 1995 p.21.
(**3**) 1967 p.84.
(**4**) OJ Rhif L333, 20.12.2003, t.17.

(2) Mae unrhyw rwymedigaeth sydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi deunydd o dan y Cynllun hwn yn rhwymedigaeth i sicrhau bod y deunydd ar gael mewn dull a fydd, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, yn ei gwneud yn rhesymol debygol y bydd y deunydd yn cael ei weld gan y rhai y gallai'r Cynllun hwn fod yn gymwys iddynt, ac mae cyhoeddi'r deunydd ymlaen llaw a chyn i'r Cynllun ddod i rym i'w drin at ddibenion y Cynllun hwn fel pe bai wedi'i gyflawni o dan y Cynllun.